# Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2023–24

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4473A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae comisiynu yn bwysig 4

Yr hyn a wnaethom edrych arno a sut mae da yn edrych 5

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym 6

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor 8

Atodiadau

Atodiad 1—cwestiynau archwilio a meini prawf 9

# Adroddiad cryno

## Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a geir yn:

- adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau; ac
- adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Gall yr archwiliad hwn lywio astudiaeth er mwyn gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004 hefyd.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i gomisiynu gwasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau;
- esbonio sut mae cynghorau yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig pan fo hynny'n berthnasol.

4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

## Pam mae comisiynu yn bwysig

5 Comisiynu yw proses y Cyngor o ddylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu cyflawni. Mae'n dechrau drwy ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ac yn gorffen pan fo'r Cyngor yn trefnu ei ddull cyflawni. Er enghraifft, drwy sefydlu tîm cyflawni yn fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.

6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau

effaith a gwerth am arian gwasanaethau, hyd yn oed os yw’r prosesau dilynol, megis caffael a rheoli contractau, yn gadarn.

## Yr hyn a wnaethom edrych arno a sut mae da yn edrych[1]

7 Gwnaethom adolygu trefniadau comisiynu gwasanaethau'r Cyngor, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

8 Nid oedd yr archwiliad hwn yn cwmpasu trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

9 Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiwn cyffredinol: **Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw’r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

10 Gwnaethom ddefnyddio’r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos sut mae’r meini prawf yn cysylltu â’r cwestiynau archwilio. Llywiwyd hyn gan ein gwybodaeth gronnol yn ogystal â’r hierarchaeth gwestiynau a’r dangosyddion cadarnhaol a ddatblygwyd gennym i gefnogi ein harchwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

11 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda’r uwch-swyddog(ion) sy’n gyfrifol am ddatblygu dull strategol y Cyngor o gomisiynu. Hefyd, gwnaethom gynnal cyfweliadau gydag uwch-swyddogion sy’n gyfrifol am wasanaethau y mae’r Cyngor wedi eu comisiynu’n allanol.

12 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau Cyngor, gwnaethom gynnal profion sampl o’r trefniadau y mae’r Cyngor wedi eu rhoi ar waith i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, gwnaethom ddewis tri gwasanaeth y mae’r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau’n allanol ar eu cyfer ac archwilio’r trefniadau comisiynu y mae’r Cyngor wedi eu rhoi ar waith. Dyma’r sampl o feysydd gwasanaeth a adolygwyd gennym yn y Cyngor:

- Y Gwasanaethau Hamdden;
- Y Gwasanaeth Ymarfer Cynhwysol;

[1] Diffinnir fel ‘yr hyn a ddylai fod’ yn unol â deddfau neu reoliadau, ‘yr hyn a ddisgwylir’ yn ôl arferion gorau, neu ‘yr hyn a allai fod’, o dan amodau gwell.

- Y Gwasanaeth Cymorth Lle Bo’r Angen Generig.

13 Cyfyngwyd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau i’r ffynonellau hyn. Gwnaethom gynnal y gwaith hwn ym mis Mehefin 2024.

14 Rydym yn ymgymryd â’r gwaith hwn ym mhob un o’r 22 o brif gynghorau yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

15 Ar y cyfan, canfuom nad yw’r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian yn rheolaidd drwy ei wasanaethau a gomisiynwyd, ond mae’n cyflwyno dull mwy strategol o gryfhau ei drefniadau. Nodwn isod pam y daethom i’r casgliad hwn.

16 Mae’r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau ei fod yn diffinio’n glir y gwasanaethau y mae’n bwriadu eu comisiynu a’r rhesymeg dros wneud hynny. Er enghraifft, mae’n ofynnol i bob cyfarwyddiaeth lunio cynlluniau caffael blynyddol sy’n cynnwys disgrifiad o’r gwasanaethau cyfredol a gomisiynir a chyfleoedd yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, ni allai’r holl wasanaethau a adolygwyd gennym ddangos pam eu bod wedi comisiynu swyddogaethau penodol. Mae cael dealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau’n cael eu comisiynu a’r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

17 Canfuom hefyd nad yw’r Cyngor yn cynnal arfarniadau dewisiadau cynhwysfawr fel mater o drefn wrth gomisiynu gwasanaethau. Er enghraifft, dim ond un o’r gwasanaethau a adolygwyd gennym oedd yn gallu dangos bod gwerthusiad cynhwysfawr o’r dewisiadau wedi ei gynnal, gan gynnwys ystyried buddion ariannol ac anariannol ac asesiad risg o’r gwahanol ddewisiadau. Mae hyn yn golygu nad yw’r Cyngor yn ystyried pob dewis o reidrwydd i sicrhau ei fod yn cael y gwerth gorau am arian. Mae hyn yn enwedig o bwysig ar adeg pan fo’r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac wedi nodi bwlch cyllido posibl o £34 miliwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2024–25 a 2028–29[2].

18 Mae’r Cyngor yn ymwreiddio dull mwy strategol o gomisiynu. Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Comisiynu a Chaffael 2023–2028. Mae hyn yn tanategu ei weledigaeth ar gyfer comisiynu. Ochr yn ochr â’r strategaeth hon, mae’r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau’n dangos yr amrywiaeth o ddata a ffynonellau a ddefnyddir i lywio gweithgarwch comisiynu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae’r templed achos busnes fframwaith masnachol yn annog swyddogion i nodi’r buddion canfyddedig, y costau a’r risgiau sy’n gysylltiedig â chomisiynu gwasanaeth penodol. Mae hyn yn bwysig i roi sicrwydd bod pob dewis wedi ei lywio gan amrywiaeth o wybodaeth.

[2] Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024/2025 hyd 2028/2029

19 Mae rhesymeg glir y tu ôl i hyd contractau y gwasanaethau a adolygwyd gennym. Er enghraifft, canfuom fod hyd contractau a chyfnodau adolygu contractau yn gyson â'r amserlenni ar gyfer gweithgareddau neu bolisïau cysylltiedig eraill. Fodd bynnag, canfuom fod cyfleoedd i egluro sut mae gwasanaethau'n ystyried goblygiadau darparu adnoddau yn yr hirdymor pan maent yn mynd ar drywydd cyfleoedd comisiynu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r templed achos busnes fframwaith masnachol yn annog gwasanaethau i nodi costau am uchafswm o bum mlynedd, er y gallai rhai dewisiadau comisiynu fod yn hirach na hyn. Hefyd, nid yw'r Cyngor yn ystyried costau rheoli'r contract fel mater o drefn wrth asesu dewisiadau comisiynu. Mae ystyried goblygiadau hirdymor a thymor byr penderfyniadau comisiynu yn lleihau'r risg o beidio â chyflawni gwerth am arian yn y tymor hwy.

20 Mae'r Cyngor yn ystyried effeithiau ehangach ei benderfyniadau comisiynu. Gallai swyddogion fynegi sut mae'r gwasanaethau a adolygwyd gennym yn cyfrannu at gefnogi amcanion ehangach. Canfuom hefyd ei bod yn ofynnol i wasanaethau nodi sut y gall comisiynu gwasanaeth gyfrannu at amcanion y Cyngor, er mwyn dangos yr effaith ehangach posibl ar gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Gall ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu helpu'r Cyngor i osgoi dyblygu a nodi nifer o fanteision sy'n sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.

21 Canfuom enghreifftiau o'r Cyngor yn cynnwys partneriaid a defnyddwyr gwasanaeth wrth gomisiynu gwasanaethau. Dangosodd rhai o'r gwasanaethau a adolygwyd gennym waith cydweithredol sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gyflawni o gymharu â'u blaenoriaethau. Er enghraifft, mae partneriaid yn ymwneud â hysbysu sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei grant cymorth tai i helpu i atal digartrefedd. Roedd rhai meysydd gwasanaeth hefyd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio gwasanaethau a gomisiynir. Fodd bynnag, nid yw trefniadau corfforaethol y Cyngor yn annog gwasanaethau i gynnwys yn systematig y rhai yr effeithir arnynt pan fo gwasanaethau'n cael eu comisiynu.

22 Nid yw'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth bob amser wrth gomisiynu gwasanaethau. Er bod y Cyngor wedi llunio Asesiad Effaith Integredig ar gyfer ei strategaeth Comisiynu a Chaffael, prin yw'r dystiolaeth o'r Cyngor yn cynnwys yn benodol bobl (neu grwpiau a gynrychiolir) sydd â nodweddion gwarchodedig wrth gomisiynu gwasanaethau. Oherwydd diffyg dogfennaeth sy'n cefnogi comisiynu rhai o'r gwasanaethau a adolygwyd gennym, nid yw'n glir ychwaith a gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig ym mhob achos. Mae hyn yn bwysig oherwydd y gall gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau, a bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cynyddu'r gwerth am arian gymaint â phosibl.

23 Mae gan y Cyngor drefniadau cyfyngedig ar waith i asesu gwerth am arian ei wasanaethau a gomisiynir. Er enghraifft, rhan o swyddogaeth Bwrdd Comisiynu Masnachol Strategol y Cyngor yw goruchwylio gwerth am arian. Fodd bynnag, elfen allweddol wrth ddeall gwerth am arian gwasanaeth a gomisiynir yw deall y buddion ariannol a/neu anariannol canfyddedig ar y dechrau. Heb fynegi'r

manteision a fwriedir yn glir, mae'n anodd i'r Cyngor fonitro i ba raddau y mae'r gwasanaeth a gomisiynwyd yn sicrhau gwerth am arian. Mae'r Cyngor wedi datblygu templed achos busnes fframwaith masnachol er mwyn annog gwasanaethau i ystyried hyn. Fodd bynnag, nid oedd y templed hwn wedi ei gymeradwyo eto ar adeg ein harchwiliad.

24 Nid oes gan y Cyngor ddull strwythuredig o rannu gwersi a ddysgir o weithgarwch a gomisiynwyd ar draws y sefydliad. Mae hyn yn bwysig oherwydd, er bod rhai meysydd gwasanaeth yn ymgymryd â llawer o waith comisiynu yn draddodiadol, mae rhannau eraill o'r Cyngor yn llai profiadol. Nid oes gan y Cyngor dîm comisiynu canolog, ac felly mae'n dibynnu'n bennaf ar dempledi sydd newydd eu datblygu a gwybodaeth swyddogion i lywio dulliau comisiynu. Mae'n bwysig gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella, rhannu dysg, a sicrhau gwerth am arian.

# Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| **A1** | **Sefydlu trefniadau comisiynu**<br>Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu ac adrodd ar werth am arian gwasanaethau a gomisiynir, dylai sicrhau bod ganddo broses arfarnu dewisiadau sefydledig a chynhwysfawr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar wasanaethau a gomisiynir. Dylai'r rhesymeg dros benderfyniadau comisiynu fod:<br>• wedi ei chofnodi'n llawn;<br>• wedi ei llywio drwy ystyried ffactorau tymor byr a hirdymor;<br>• wedi ei llywio gan safbwyntiau y rhai y byddai'r gwasanaeth a gomisiynir yn effeithio arnynt; ac<br>• yn destun asesiad risg, gan gynnwys ystyried costau a manteision llawn pob dewis. |
| **A2** | **Corffori trefniadau ar draws y Cyngor**<br>Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar draws y Cyngor yn dysgu o weithgarwch comisiynu, dylai'r Cyngor ymwreiddio trefniadau comisiynu drwy:<br>• godi ymwybyddiaeth o drefniadau a disgwyliadau comisiynu; a<br>• rhannu'r ddysg sy'n deillio o weithgarwch comisiynu. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor resymeg glir dros gomisiynu gwasanaethau? | A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham? | • Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' y mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau, gan gynnwys:<br>– y canlyniadau/effaith a fwriedir yn sgil cyflawni'r gwasanaeth<br>– a yw/sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol |
| | A yw'r Cyngor yn cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o ddewisiadau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr amrywiaeth lawn o ddewisiadau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth—gallai'r dewisiadau gynnwys, er enghraifft:<br>– darpariaeth fewnol,<br>– trefniadau partneriaeth neu ddulliau comisiynu mewn sectorau ac ar draws sectorau<br>– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall drwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall<br>– contractio'r gwasanaeth drwy broses dendro<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried manteision cost y dewisiadau o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd—gan gynnwys dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau yn ei asesiad o ddewisiadau comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad risg ar gyfer pob dewis comisiynu yn rhan o'r asesiad o'r manteision costau<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau cyfredol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir |

| | | |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | A yw'r Cyngor yn ystyried yr hyn y mae hirdymor yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr hyn y mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau—h.y. pa mor bell ymlaen y gall/dylai gynllunio a pham.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cydbwyso anghenion tymor byr a hirdymor wrth gynllunio gwasanaethau i'w comisiynu, gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill |
| | A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau hirdymor wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu amrywiaeth o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol i wasanaethau a gomisiynir. |
| | A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor? | • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir<br>• Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro, gan gynnwys:<br>– costau a manteision;<br>– cynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy |
| A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth a gomisiynir eu cael? | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at amcanion llesiant y Cyngor? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun er mwyn sicrhau manteision lluosog, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. E.e. ystyried amcanion tymor hwy, y gadwyn gyflenwi leol, cadernid y farchnad ac effaith hyd contractau, bioamrywiaeth, lleihau carbon |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at Nodau Llesiant Cenedlaethol? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar nodau llesiant cenedlaethol er mwyn sicrhau manteision lluosog ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir? | A yw'r Cyngor wedi nodi pwy mae angen iddo eu cynnwys? | • Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae hyn wedi ei lywio gan ddadansoddiad gan randdeiliaid neu debyg. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i lywio sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithredu â'r partneriaid cywir? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba bartneriaid a phartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi ei lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau.<br>• Lle nodir cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn eu dilyn. |
| A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull comisiynu? | A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fel mater o drefn? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull comisiynu yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– y graddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi eu pennu<br>– gwerth am arian modelau comisiynu a ddewiswyd, gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau. |
| | A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgir fel mater o drefn i lywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir o'i ddull comisiynu yn eang ar draws y sefydliad, ac â phartneriaid pan fo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.